

DIWRNODAU AGORED

Trefnwyd 3 diwrnod agored ym Mhwhllheli, Dolgellau a Phenrhyndeudraeth rhwng yr oriau 14:00 a 19:00 er mwyn rhoi cyfle i bobl drafod a rhoi sylwadau ar yr ymgynghoriad statudol.

Aethom a byrddau arddangos gyda chynlluniau diweddaraf yr ysgol newydd, dogfennau ymgynghori a pecynnau cefndirol gyda ni i'r 3 cyfarfod.

Yn ystod ein trafodaethau gyda unigolion rhoddwyd y cynnig iddynt nodi unrhyw sylwadau ar yr ymgynghoriad statudol yno yn llafar neu'n ysgrefennedig.

07.07.14 – Pwllheli

Daeth 3 person i'r diwrnod agored. Roedd y 3 yn gefnogol iawn i'r ysgol newydd ac yn deall sut y mae ei adeiladu ym Mhenrhyndeudraeth yn ymddangos yn deg i'r ddwy ardal.

Dywedodd rhiant un o'r plant sy'n ddisgybl yn Ysgol Hafod Lon ei bod yn wir edrych ymlaen iddo gael defnyddio'r cyfleusterau newydd sbon a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd pan fydd yr ysgol newydd yn agor.

Ni dderbynwyd unrhyw sylwadau o wrthwynebiad na phryderon i'r argymhelliad ar y diwrnod.

08.07.14 – Dolgellau

Daeth 3 person i'r diwrnod agored. Roedd y 3 yn hapus iawn gyda chynllun a lleoliad yr Ysgol ar y cyfan. Nodwyd hefyd ei fod yn syniad da i agor yr ysgol i'r gymuned ehangach er mwyn iddynt allu defnyddio cyfleusterau fel y pwll hydrotherapi.

Derbyniwyd dau sylwad sydd yn berthnasol i'r ymgynghoriad:

- a) Ydi'r ceblau trydan sydd uwchben y safle yn debygol o greu problemau, yn enwedig amharu ar y rhwydwaith radio/ffôn lleol?
- b) A ystyriwyd safle'r hen ysbyty dros ffordd i Parc Eryri fel lleoliad posib i'r ysgol newydd?

Nid oedd unrhyw wrthwynebiad na phryderon eraill i'r argymhelliad ar y diwrnod. Mi aeth 2 berson a chopi o'r ddogfen ymgynghori gyda nhw i ystyried cynnig yr ymgynghoriad ymhellach.

09.07.14 – Penrhyndeudraeth

Daeth 9 person i'r diwrnod agored . Dywedodd pawb a ddaeth eu bod yn gefnogol iawn i'r ysgol newydd. Roedd gan 2 blant yn Ysgol Hafod Lon a datganwyd y bydd eu bywydau yn cael eu trawsnewid pan fydd ysgol newydd yn agor. Roedd hefyd sylwadau cadarnhaol am y cyfleusterau a lleoliad yr ysgol newydd.

Ni dderbynwyd unrhyw sylwadau o wrthwynebiad na phryderon i'r argymhelliad ar y diwrnod ond mi aeth 3 person a chopi o'r ddogfen ymgynghori gyda nhw i ystyried cynnig yr ymgynghoriad ymhellach.